**ADRODDIAD I'R CABINET**
19 CHWEFROR 2013

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2012/13 – 2014/15

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Adroddir ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2012) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i'r Cabinet ffurfiol 19 Chwefror 2013 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 4 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf sydd bron yn £115m am y 3 blynedd 2012/13 – 2014/15.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net o £2.057m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.9 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2012/13 i 2013/14.

**Rhan 4**: Gwariant 9 mis cyntaf 2012/13.

---

**Prif Gasgliadau:**

Gofynnir am gymeradwyaeth i gynnydd o £2.1m yn y rhaglen tair blynedd, ac ail-broffilio gwariant o £7.9m o 2012/13 i 2013/14.

Fe welir fod gwerth y rhaglen gyfalaf eleni bron yn £41miliwn, a chyfanswm y rhaglen tair blynedd gyfredol wedi codi i bron £115miliwn, sy'n gyflawniad sylweddol gan y Cyngor yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Bu cynnydd o 5% yn y lefel gwariant ar ddiwedd Rhagfyr eleni (2012/13) o'i gymharu â'r un cyfnod (9 mis) y llynedd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2012/13 - 2014/15.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd cyflawni'r prosiectau cyfalaf, ac adrodd ar sefyllfa ddiwedd y flwyddyn i gyfarfod perthnasol y Cabinet ym mis Mehefin 2013.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn dangos eto rheolaeth dda ar ein hadnoddau cyfalaf. Wrth gwrs, mae'r amrywiaeth o gynlluniau ym mhob blwyddyn yn wahanol ond mae'n galonogol gweld bod y canran gwariant hyd yma eleni (59%) yn uwch na'r adeg hon y flwyddyn diwethaf.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i' w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Adroddiad manwl, rhan 1-4, ar dudalennau 3-7.

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2012/13 i 2014/15

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Rhagfyr yn erbyn y sefyllfa diwedd Medi:

## CYMHARIAETH RHWNG Y TRYDYDD CHWARTER A'R AIL CHWARTER

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y CHWARTER DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | CYFANSWM | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | CYFANSWM | |
| **ADRAN** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 66 | 441 | 0 | 507 | 66 | 441 | 0 | 507 | 0 |
| Addysg | 6,207 | 11,960 | 1,780 | 19,947 | 5,677 | 11,108 | 3,191 | 19,976 | 29 |
| Cyllid | 0 | 59 | 0 | 59 | 10 | 59 | 0 | 69 | 10 |
| Darparu a Hamdden | 341 | 491 | 0 | 832 | 341 | 491 | 0 | 832 | 0 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 6,662 | 8,163 | 342 | 15,167 | 5,848 | 9,481 | 333 | 15,662 | 495 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,917 | 6,560 | 4,995 | 20,472 | 8,203 | 7,751 | 4,995 | 20,949 | 477 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 223 | 1,635 | 816 | 2,674 | 190 | 1,469 | 1,016 | 2,675 | 1 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,137 | 2,440 | 2,000 | 7,577 | 3,512 | 2,365 | 2,000 | 7,877 | 300 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,488 | 6,921 | 4,916 | 21,325 | 9,499 | 6,910 | 4,916 | 21,325 | 0 |
| Rheoleiddio | 7,026 | 7,738 | 8,913 | 23,677 | 7,458 | 8,051 | 8,913 | 24,422 | 745 |
| Strategol a Gwella | 4 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 4 | 0 |
| Tai Cyngor (Gweddillol) | 57 | 0 | 0 | 57 | 57 | 0 | 0 | 57 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 68 | 0 | 0 | 68 | 68 | 0 | 0 | 68 | 0 |
| Corfforaethol | 0 | 78 | 276 | 354 | 0 | 78 | 276 | 354 | 0 |
| **CYFANSWM** | **42,196** | **46,486** | **24,038** | **112,720** | **40,933** | **48,204** | **25,640** | **114,777** | **2,057** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £2.057m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa ail chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| FFYNHONNELL ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | CYNNYDD/ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | (LLEIHAD) |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,860 | 4,039 | 4,039 | 4,860 | 4,039 | 4,039 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 5,794 | 11,279 | 4,450 | 5,238 | 6,203 | 7,179 | (2,903) |
| Grantiau a Chyfraniadau | 20,024 | 19,440 | 11,608 | 19,576 | 23,831 | 11,572 | 3,907 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 2,109 | 2,340 | 2,096 | 2,279 | 2,470 | 2,096 | 300 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 1,847 | 1,965 | 527 | 2,269 | 1,971 | 527 | 428 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,424 | 6,901 | 1,318 | 2,490 | 8,653 | 200 | (300) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,138 | 522 | 0 | 4,221 | 1,037 | 27 | 625 |
| **CYFANSWM** | **42,196** | **46,486** | **24,038** | **40,933** | **48,204** | **25,640** | **2,057** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **112,720** | | | **114,777** | |

**2.2 Benthyca Heb Gefnogaeth**

Lleihad o £2,903,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Ysgolion Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) – (£1,619,170) yn 2013/14 a (£244,010) yn 2014/15, ac Ysgol O.M. Edwards (Adran Addysg) – (£500,000) yn 2012/13 a (£500,000) yn 2013/14**
  Fe alluogwyd i'r Cyngor ail broffilio defnydd y grant dros gyfnod y pecyn cynlluniau ysgolion ganrif 21, sydd hefyd felly yn ein galluogi i ail broffilio defnydd o gefnogaeth ariannol y Cyngor drwy fenthyca a welir yma (gweler hefyd 2.3 a 2.6 isod)
- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) – (£40,000) yn 2012/13**
  Lleihau'r angen am fenthyciad gan Salix yn dilyn derbyn grant ychwanegol o Raglen Môn Menai'r Llywodraeth.

**2.3 Grantiau a Chyfraniadau**

Cynnydd net o £3,907,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Ysgolion Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) – (£317,520) yn 2012/13 a £2,491,350 yn 2013/14, ac Ysgol O.M. Edwards (Adran Addysg) – £263,720 yn 2012/13 a £736,280 yn 2013/14**
  Fel adroddir uchod, fe alluogwyd i'r Cyngor ail broffilio defnydd y grant dros gyfnod y pecyn cynlluniau ysgolion ganrif 21 (gweler hefyd 2.2 uchod a 2.6 isod)
- **Grant TAITH (Adran Rheoleiddio) £264,060 yn 2012/13**
  Cafwyd dyraniad ychwanegol o grant gan y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer cynlluniau megis Beicio Arfon a Lon Deheuol Llyn.
- **Cynllun Gwella Trefi (Adran Economi ac Adfywio) £100,000 yn 2012/13 a £500,000 yn 2013/14**
  Derbyniwyd grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Môn Menai ar gyfer y cynllun Gwella Trefi sydd ar gyfer 3 pecyn o gymorth – cynllun targedu eiddo, cynllun gwella trefi a chynllun gwella blaen siop.

**2.4 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd o £300,000 yn y dull yma o ariannu –

- **Cynllun Blaendal Morgais (Adran Tai) £300,00 yn 2012/13**
  Cynllun newydd ar gyfer benthyciadau i gynorthwyo pobl leol sydd yn brynwyr tro cyntaf i gael blaendal morgais.

**2.5 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Cynnydd net o £428,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Grant Trafnidiaeth (Adran Rheoleiddio) £355,470 yn 2012/13**
  Oherwydd y cynnydd mewn gwariant fe gyflwynwyd cais am grant ychwanegol i Lywodraeth Cymru sydd yn disgwyl cadarnhad ffurfiol. Am y tro fe ariannir y cynnydd drwy gyfraniad o gyllideb refeniw'r Adran.
- **Cynlluniau Gwastraff – Sgipiau Bwyd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £26,080 yn 2012/13**
  Cyfraniad uwch at gost yr elfen sgipiau bwyd o’r Canolfannau Ailgylchu.

**2.6 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad net o £300,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Ysgolion Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) (£306,270) yn 2013/14**
  Fe alluogwyd i’r Cyngor ail broffilio defnydd y grant dros gyfnod y pecyn cynlluniau ysgolion ganrif 21, sydd hefyd yn ein galluogi i ail broffilio defnydd o gefnogaeth ariannol y Cyngor drwy’r gronfa gyfalaf a welir yma (gweler hefyd 2.2 a 2.3 uchod).

**2.7 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £625,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda, ac Ystafelloedd Hyfforddi Llys y Goron (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) £200,000 yn 2012/13 a £200,000 yn 2013/14**
  Drwy ddarparu ystafelloedd hyfforddi pwrpasol golygir y bydd arbedion sylweddol o gostau llogi ystafelloedd a hefyd costau teithio perthnasol.
  Oherwydd y penderfyniad i beidio gwario ar waith cynnal a chadw ar adeilad Llys y Goron hyd nes byddai sicrwydd o ddefnydd hir dymor yr ased, fe roddwyd yr arbedion mewn cronfa. Defnyddir y gronfa rŵan i ariannu’r uchod.
  Hefyd, mae’r datblygiadau yn y ddwy siambr uchod yn mynd i alluogi darlledu ar y we fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i hybu democratiaeth leol ac ymgysylltiad y cyhoedd at weithrediadau’r Cyngor. Bydd y cynllun yma hefyd yn denu grant gan y Llywodraeth.
- **Cynllun Cyd-leoli Staff a Siop Un Stop (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) £120,410 yn 2013/14**
  Defnydd o’r Gronfa Swyddfeydd ar gyfer gwaith perthnasol ar eiddo i gyd-leoli staff.
- **Cynlluniau Gwastraff – Biniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £84,060 yn 2012/13**
  Defnydd uwch o’r cronfeydd adnewyddu er mwyn ymateb i’r galw.

**2.8 Cais am drosglwyddiad rhwng cynlluniau**

- **Adran Tai –** gan fod cynllun Ardaloedd Adnewyddu Llywodraeth Cymru yn dod i ben yn 2014, ac er mwyn uchafu'r budd perthnasol i'r Sir, mae'r Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn awyddus i gynyddu'r gwariant ar y cynlluniau ardaloedd adnewyddu cyfredol drwy gyfraniad o'r ffynhonnell grantiau tai cyffredinol. Yn yr amgylchiadau felly, fe **argymhellir trosglwyddiad o £302,650 o gyllideb Grantiau Tai Cyffredinol i gyllideb Grantiau Ardaloedd Adnewyddu.**

**2.9 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2012/13 i 2014/15, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu a'r trosglwyddiad cyllideb berthnasol (para. 2.2 i 2.8 uchod).**

**3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL**

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2012/13 i 2013/14 hyd yma yw £7,928,370. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau sydd wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Cynllun Rheoli Asedau – cynllun osgoi rhag ôl-groniad cynnal a chadw adeiladau'r Cyngor (Adran Gofal Cwsmer - Uned Eiddo) £1,175,000
- Ysgolion Ardal Dolgellau (Adran Addysg) £896,320
- Cerbydau Cronfa Fflyd y Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £265,870
- Rhwydwaith Technoleg Gwybodaeth (Adran Gofal Cwsmer) £164,000
- Diffyg lle - Ysgol Gynradd Llanrug (Adran Addysg) £135,860
- Peiriant Golchi Cerbydau (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £130,000

Cynlluniau sydd wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £3,012,100
- Ysgolion Ardal Bro Dysynni (Adran Addysg) £1,190,210
- Lon Las Ogwen, cynllun Cymuned a Natur (Adran Rheoleiddio) £309,050
- Ysgol O.M.Edwards, Llanuwchllyn (Adran Addysg) £236,280

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 9 MIS CYNTAF 2012/13

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd y trydydd chwarter (9 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2012/13 (blwyddyn gyfan) -

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2012/13 £'000** | **GWIR WARIANT Y 9 MIS HYD AT 31/12/2012 £'000** |
|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 66 | 31 |
| Addysg | 5,677 | 2,534 |
| Cyllid | 10 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 341 | 195 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 5,848 | 3,409 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,203 | 6,140 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 190 | 118 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,512 | 2,526 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 9,499 | 5,557 |
| Rheoleiddio | 7,458 | 3,668 |
| Strategol a Gwella | 4 | 4 |
| Tai Cyngor | 57 | 24 |
| Ymgynghoriaeth | 68 | 10 |
| Corfforaethol | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **40,933** | **24,216** |

**4.2** Mae dros £24.2m wedi ei wario yn ystod y naw mis cyntaf, sef 59% o'r gyllideb.

| **CRYNODEB** | **ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2012/13** | **ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR 2011/12** | **CYNNYDD** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £40.9miliwn | £38.7 miliwn | £2.2miliwn |
| Gwariant y 9 mis cyntaf | £24.2miliwn | £21.0 miliwn | £3.2miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 59% | 54% | 5% |

**4.3** Er gwaethaf ail broffilio sylweddol, mae'r gyfran sydd wedi'i wario hyd yma eleni 5% yn uwch na'r gyfran gyfatebol llynedd.